















## Croeso i Ddosbarth Briallu / Welcome



<b>Enw'r Athro / Teacher's Name</b>	Mr Rhydian Jones Mrs Sioned Booth (bob pñawn Dydd Mercher/every Wednesday afternoon)
<b>Dolen gyswllt / Point of Contact</b> 	Os hoffech gysylltu gyda'r athro dosbarth ar unrhyw achlysur, y ffordd orau i wneud hynny ydy drwy ebost. <i>If you wish to contact your child's teacher, the best way to do this is through email.</i>  Mr Rhydian Jones – <a href="mailto:JonesR261@hwbcymru.net">JonesR261@hwbcymru.net</a>
<b>Athrawon eraill o fewn Uned / Other teachers within Year 6</b>	Mrs Gwenan Williams a Mrs Einir Huws
<b>Staff Cefnogi / Support Staff</b>	Miss Michelle Taylor, Mrs Sian Barton, Mrs Ceri Kingsley-Williams a/and Mrs Carys Brady
<b>Cyrraedd yr ysgol / Arriving at school</b> 	Yn y bore, fe fydd disgwyl i ddisgyblion Blwyddyn 6 ddod drwy giat y buarth am <b>8.50</b> (ger dosbarth Mr Rhydian Jones). Gall y plant gyrraedd yr ysgol rhwng 8.50 a 9.00. Bydd y disgyblion wedyn yn rhoi eu bagiau yn eu loceri ac yn mynd yn syth i'w dosbarth er mwyn gwyllo S4C ar y teledu neu cwblhau gweithgareddau lles tan i'r gofrestr agor am 9. <i>In the mornings, Year 6 children will come in through the school yard gate at <b>8.50</b> (by Mr Rhydian Jones' class). They can arrive between 8.50 and 9. The pupils will then put their bags in their lockers and go straight to their class to watch S4C until 9 when registration begins.</i>
<b>Amser cofrestru yn y bore / Morning Registration Time</b>	<b>9.00 y.b.</b> Nodir eich plentyn yn hwyr ar y gofrestr ar ôl 9y.b. / <i>Your child will be marked late on the register after 9am.</i>
<b>Amseroedd Chwarae a Cinio / Playtimes and Lunchtimes</b>	Bore / <i>Morning</i> : 10.30 – 10.45a.m.      Prynawn / <i>Afternoon</i> : 2.10 – 2.20p.m.  Cinio/Lunch – 12.15 – Bl 4, *12.30 – Bl 5 a 6  <b>*Nodir nad yw Bl 6 yn cael cinio tan 12.30, felly rydym yn annog disgyblion i ddod a snapyn gyda nhw i gadw nhw i fynd drwy'r bore.</b>

	<p><b>*Please note that Year 5 and 6 do not have lunch until 12.30, so we do encourage the pupils to bring Snapyn to keep them going through the morning.</b></p>
<p><b>Diwedd y dydd / End of the day</b></p> 	<p>Bydd disgyblion Blwyddyn 6 yn gorffen ysgol am 3.15pm. Byddant yn dod allan drwy'r giat o'r buarth neu bydd rhai yn gadael drwy'r brif fynedfa (os ydynt yn mynd i'r giat top)</p> <p>Os ydych yn caniatáu i'ch plentyn gerdded at y giatau neu adref ei hun, <b>mae'n rhaid</b> i ni dderbyn e-bost gennych yn nodi hyn. <b>Os oes unrhyw newid yn nhrefniadau mynd adref arferol eich plentyn, mae'n hanfodol eich bod yn gadael i ni wybod.</b></p> <p><i>Year 6 pupils finish school at 3.15pm and will come out through the gate from the yard or some pupils will leave through the main entrance (if they are going to the top gate). If you give your permission for your child to walk to one of the gates or home alone, <b>you must</b> let us know through email please. <b>If there is any change in your child's usual arrangements for going home, please let us know.</b></i></p>
<p><b>Clybiau / Clubs</b></p> 	<p>Holl fanylion y clybiau wedi ei yrru ar yr app Ddydd Gwener. <i>All information regarding clubs have been sent out on the app on Friday.</i></p>
<p><b>Snapyn / Snack</b></p> 	<p>Caiff plant ddod â snapyn iachus/ffrwyth eu hunain i'r ysgol. Hefyd, mae'n <b>hynod bwysig</b> eu bod nhw'n dod â photel gyda nhw i'r ysgol gan roi label clir gydag enw arno. Gall y disgyblion ail-lenwi eu poteli yn y dosbarthiadau.</p> <p><i>Your child can bring their own healthy snack/piece of fruit/veg to school. Also, it is important for them to bring a bottle to school <b>clearly labelled</b> with their name. The pupils may refill their bottles in the classrooms.</i></p>
<p><b>Arian Cinio / Dinner Money</b></p> 	<p>Byddwch rwan yn gallu dewis cinio gyda'ch plentyn adref. Os ydych wedi anghofio gwneud hyn, peidiwch a phoeni gan bydd yr athrawon dosbarth yn gwirio cinio gyda pawb yn y dosbarth yn y bore. Bydd angen talu am ginio drwy School Comms.</p> <p><i>Now you are able to choose lunch with your child at home. If you have forgotten to do this, please do not worry as the class teachers will check this every morning. You will need to pay for school dinners through School Comms.</i></p>
<p><b>Thema Ymholi / Enquiry Topic</b></p>	<p>Pa effaith mae rhyfel yn cael ar blant? <i>What effect does war have on children?</i></p>

<p><b>Eich mewnbwn chi fel rhieni / Your input as parents</b></p> 	<p>Yn ystod y tymor hwn, ein thema ym mlwyddyn 6 fydd “Pa effaith mae rhyfel yn cael ar blant?”. Os y gallwch chi gynnig unrhywbeth i’n thema, neu wneud unrhyw awgrymiadau am yr hyn yr hoffech weld eich plentyn yn ei ddysgu yn ystod ein gwaith ymholi, fe fydden ni’n croesawu eich mewnbwn. Cysylltwch ag athro/athrawes eich plentyn.</p> <p><i>During the term, our theme will be “What effect does war have on children?” If you feel you could offer something to our theme, or that you have any ideas about what you feel you would like your child to learn/experience during our theme we would welcome your input. Please contact your child’s teacher.</i></p>
<p><b>Pasbort Digidol / Digital Pasbort</b></p> 	<p>Bydd eich plentyn yn derbyn pasbort digidol gyda manylion mewngofnodi ar gyfer Hwb. Gofalwch fod y pasbort gennych yn saff fel y gall eich plentyn fewngofnodi i’w g/chyfrif Hwb o adref.</p> <p><i>Your child has will receive their digital passport which contains log-in details for Hwb. Please make sure that the passport is kept safely so that your child can log-in to their account from home.</i></p>
<p><b>Llyfrau Darllen / Reading books</b></p> 	<p>Fe fydd y disgyblion yn derbyn llyfr darllen i fynd adref efo nhw. Gan fod hyd y llyfrau yn amrywio erbyn i’r disgyblion gyrraedd yr oedran yma, nid oes rhaid gorffen llyfr o fewn wythnos. Gallant ddod â’r llyfr yn ôl i’r ysgol i’w gyfnewid wedi iddynt ei gwblhau a byddant yn cael dewis llyfr Cymraeg / Saesneg bob yn ail. Os oes gan eich plentyn lyfrau Cymraeg neu Saesneg gartref maent yn eu darllen a’u mwynhau, nid oes gennym wrthwynebiad iddynt ddarllen rheiny yn achlysurol yn hytrach na dewis rhai o lyfrgell yr ysgol. Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau fod eich plentyn darllen yn rheolaidd.</p> <p><i>The pupils will receive a reading book to bring home. As the length of the books vary at this age, we don’t expect everyone to have completed their book within a week. They may bring the book to school to exchange it once completed and they will alternate between Welsh / English. If your child has Welsh or English books at home that they’re reading and enjoying, we don’t have any objection for them to read those occasionally rather than choose a book from the school library. We kindly ask that you ensure that your child reads regularly.</i></p>
<p><b>Alergeddau neu broblemau meddygol / Allergies or medical condition</b></p> 	<p>Mae’n hanfodol eich bod yn gadael i ni wybod os oes gan eich plentyn asthma, unrhyw alergeddau, neu broblemau meddygol eraill. Hefyd, gadewch ni wybod os oes rhywbeth wedi newid o ran y cofnodion meddygol. Os oes gan eich plentyn asthma, sicrhewch fod y pypiau cywir yn yr ysgol bob amser ac os oes ganddynt Epi-pen, mae angen gwirio rhain yn rheolaidd er mwyn gofalu eu bod mewn dyddiad.</p> <p><i>It is essential that you let us know if your child has any allergies, has asthma or suffers from any other medical condition. Also, if anything has changed to medical records, please let us know. If your child suffers from asthma and needs a pump, please ensure that they have the correct pump at school and if they have an Epi-pen, these must be checked regularly to make sure that they are in date.</i></p>

<p><b>Gwersi Addysg Gorfforol / PE Lessons</b></p> 	<p>Gofynnwn i'r plant ddod i'r ysgol mewn gwisg Addysg Gorfforol ar <b>DDYDD MERCHER</b> os gwelwch yn dda. Ar ddiwrnod Addysg Gorfforol dylai'r disgyblion wisgo crys t gwyn, leggings / trywsus tracwisg / siorts du a siwmpwr neu gardigan ysgol.</p> <p><i>We ask the pupils to come to school every <b>WEDNESDAY</b> in their P.E. Kit please. On P.E. days the pupils should wear a white t shirt, black leggings / tracksuit bottoms / shorts and a school jumper or cardigan.</i></p>
<p><b>Gwasanaethau a Chanu / Assemblies and Singing</b></p> 	<p>Cynhelir gwasnaeth Cyfnod Allweddol 2 a gwasanaeth ysgol gyfan yn wythnosol yn ogystal â sesiynau canu.</p> <p><i>Key Stage 2 and whole school assemblies are held weekly as well as singing sessions.</i></p>
<p style="text-align: center;">Gobeithio fod yr wybodaeth uchod o ddefnydd i chi, ac y gallwn gydweithio gyda'n gilydd er mwyn sicrhau fod eich plentyn yn hapus yn yr ysgol.</p> <p style="text-align: center;"><i>You will hopefully find the above information is useful, and we can work together to ensure your child is happy at school.</i></p>	

